Arolwg Hawdd ei Ddeall

# Sut mae newidiadau i fudd-daliadau anabledd yn gallu effeithio arnoch chi?

## Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl



Gorffennaf 2025

# Am yr arolwg yma



Sioned Williams ydw i, Aelod o'r Senedd dros Orllewin De Cymru.



Rydw i eisiau clywed beth rydych chi'n feddwl am gynlluniau'r Llywodraeth i newid budd-daliadau

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o:

**Arolwg: Effaith Diwygiadau Lles y DU ar bobl anabl yng Ngorllewin De Cymru.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.

Bydd gwybodaeth bersonol pobl yn cael ei chadw'n breifat. Bydd o ond yn cael ei defnyddio ar gyfer fy ngwaith achos.




Mae'r gwaith hwn wedi'i ariannu gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma

# Beth mae'r Llywodraeth eisiau ei newid




Mae Llywodraeth y DU eisiau gwneud newidiadau mawr i fudd-daliadau i bobl anabl.




Maen nhw eisiau newid::

- Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)
- Credyd Cynhwysol (UC)




Mae llawer o bobl yn poeni am y newidiadau yma. A sut y bydd yn effeithio arnyn nhw.



Mae'r Llywodraeth wedi bod dan bwysau am hyn. Maen nhw newydd wneud ychydig mwy o newidiadau ar ôl clywed pryderon pobl.




Ond mae pobl yn dal i boeni. Fe fydd y newidiadau yn effeithio’n bennaf ar bobl sy’n gwneud hawliadau newydd.




Mae rhai newidiadau yn gallu dechrau yn 2026, tra bod eraill yn gallu cymryd mwy o amser.

# Am y newidiadau

## Llai o bobl sy'n gallu cael PIP





Mae Llywodraeth y DU eisiau newid y rheolau ar gyfer Taliad Annibyniaeth Bersonol. Mae hyn yn aml yn cael ei alw yn PIP.



Mae PIP yn arian i helpu pobl anabl gyda bywyd bob dydd a mynd o gwmpas.




Rydych chi'n gallu darganfod mwy am PIP ar wefan Llywodraeth y DU: [www.gov.uk/government/publications/about-pip-what-it-is-and-how-to-claim-it-easy-read-guide](www.gov.uk/government/publications/about-pip-what-it-is-and-how-to-claim-it-easy-read-guide)




I gael PIP, mae pobl yn cael eu sgorio ar pa mor anodd ydy hi iddyn nhw wneud tasgau bob dydd. Fel coginio neu olchi. Mae'r sgoriau'n mynd o 0 i 12.



Rydych chi’n gallu cael PIP os ydych chi’n sgorio pwyntiau isel mewn llawer o feysydd.



Ar ôl clywed pryderon pobl, mae’r llywodraeth wedi cael gwared ar y newidiadau roedden nhw wedi eu cynllunio i PIP.



Fe fydd y Llywodraeth yn gweithio gyda phobl anabl i edrych ar ba newidiadau fydd eu hangen efallai yn y dyfodol.



Mae pobl gyda chyflyrau iechyd difrifol a hirdymor yn gallu parhau i gael PIP heb fod angen cael eu hasesu eto.

# Symiau is o Gredyd Cynhwysol




Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal rydych chi'n gallu ei gael os:

- Rydych chi allan o waith.
- Neu rydych chi mewn gwaith ac mae gennych chi enillion isel.




Rydych chi'n gallu darganfod mwy am Gredyd Cynhwysol ar wefan Llywodraeth y DU: [www.gov.uk/government/publications/easy-read-universal-credit](https://www.gov.uk/government/publications/easy-read-universal-credit)




Fe fydd y newidiadau i Gredyd Cynhwysol yn effeithio yn bennaf ar bobl sy'n gwneud hawliadau newydd.



Fe fydd pobl sydd yn cael budd-daliadau yn barod, ac sydd gyda chyflyrau iechyd hir dymor yn gallu cael swm ychwanegol o Gredyd Cynhwysol.




Fe fyddan nhw'n parhau i gael Credyd Cynhwysol heb fod angen cael eu hasesu eto.



Efallai na fydd pobl ifanc o dan 22 oed yn gallu cael y swm ychwanegol yma.

# Beth mae hyn yn gallu ei feddwl i chi



Mae'r newidiadau yma yn:

- Tynnu'r gefnogaeth rydych chi'n ei gael yn ôl neu ei leihau.
- Effeithio ar eich iechyd a'ch arian.
- Gwneud hi'n fwy anodd byw ar eich pen eich hun.



Rydw i eisiau clywed gan bobl sy'n byw yng Ngorllewin De Cymru.



Fe fydd eich atebion yn ein helpu i ddangos sut fydd y newidiadau yma yn effeithio ar bobl a chymunedau.



Nawr bod y Llywodraeth wedi gwneud rhai newidiadau i'w cynlluniau ar gyfer y budd-daliadau yma, efallai na fydd pobl sydd yn hawlio yn barod yn cael eu heffeithio cymaint â phobl sy'n gwneud hawliadau newydd.



Ond rydyn ni'n dal eisiau clywed gennych chi. Fe fydd beth rydych chi'n feddwl yn ein helpu i ddeall sut fydd y newidiadau yma yn effeithio ar bobl yn y dyfodol.

# Cwestiynau

Atebwch gymaint o gwestiynau ag yr ydych eisiau.



1. **Sut ydych chi'n meddwl y gallai'r newidiadau effeithio ar eich bywyd bob dydd neu'ch gallu i fyw ar eich pen eich hun?**




2. **Pa bryderon sydd gennych chi am newidiadau i PIP neu Gredyd Cynhwysol?**



**3. Ydych chi’n meddwl y gallai’r newidiadau yma wneud eich sefyllfa ariannol yn well neu’n waeth?**

Dywedwch wrthyn ni pam.



**4. A fyddai unrhyw beth yn eich helpu i deimlo'n fwy hyderus i chwilio am waith neu hyfforddiant?**

Dim ond atebwch os ydy hyn yn rhywbeth rydych chi eisiau ac yn gallu ei wneud.




5. **Mewn rhai rhannau o Gymru mae gan bobl anabl lawer llai o arian na phobl sydd ddim yn anab.**

   **Fe fyddai'r cymunedau yma yn cael eu heffeithio mwy gan y newidiadau yma.**

   **Ydych chi'n meddwl bod y Llywodraeth yn gwrando ar broblemau lleol fel hyn?**




6. **A oes unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am sut y gallai'r newidiadau yma effeithio arnoch chi neu eraill?**

# Sut i gymryd rhan



Anfonwch eich atebion at:
sioned.williams@senedd.wales




Diolch yn fawr iawn am eich amser. Mae eich llais yn bwysig.



I gael rhagor o wybodaeth amdanaf i neu fy ngwaith, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.sionedwilliams.wales

**Ebost:** sioned.williams@senedd.wales

**Ffôn:** 01639 203204

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Easy Read Wales made this document into Easy Read using **Photosymbols**. To tell us what you think about this easy read version, click here.

Photosymbols Licence number 403527247